CYNGOR CYMUNED BRYNGWRAN COMMUNITY COUNCIL

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD NOS FERCHER 10 Mehefin 2015 AM 7.00 O'R GLOCH YN NEUADD YR YSGOL

YN BRESENNOL
Cyng C Ll Thomas, K Humphreys, E Huws, S Parry, R G Parry, A Michael, I Rowlands, D Rees (Cyngor Sir)

YMDDIHEURIADAU
Cyng I Roberts, N Highley, D Michael.

Cadeirwyd y cyfarfod gan yr Is-Gadeirydd Cyng C Ll Thomas

DATGAN DIDDORDEB - Dim

Scottish Power - Dechreuwyd gyda sgwrs gyda cynrychiolwyr Scottish Power - Richard Parry ac Edgar. Mae nifer o cables yn yr ardal wedi cael ei newid yn ddiweddar a bydd y cables wrth ymyl yr ysgol yn cael ei wneud cyn y gaeaf. Mae'n bosib i cwsmeriaid dros 60 oed a cwsmeriaid anabl cofrestru ar wê Scottish Power.

DERBYN COFNODION Y CYFARFOD 13 Mai 2015
Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod 13 Mai 2015, Cyng R G Parry yn cynnig a Cyng S Parry yn eilio.

MATERION YN CODI O'R COFNODION
Ganmlwyddiant y Rhyfel Mawr - Mae'r Clerc wedi gwneud cais newydd - War Memorial Trust ac yn disgwyl ymateb.
Plaque Eisteddfod Mon - mewn llaw
Cysgodfan Bws (yswiriant) - Mae'r Clerc wedi cael hyd i cwmni (Shelter Solutions) sydd yn fodlon cynnig cysgodfan am £2290 + TAW + cost beinc. Bydd y gwaith yn cael ei wneud yn y mis nesaf
Twnnel Helyg - Penderfyniwyd gofyn i Cymunedau yn Gyntaf cynnig pris am gosod llawr (bark)
Scottish Power - Gweler uchod
Cyfrif y Maes Chwarae - mewn llaw
Williams Homes Bala - Mae'r Clerc yn disgwyl ymateb
Maes chwarae (preniau a llwybr) - mae'r gwaith wedi cael ei wneud
Arwydd Bryngwran - mewn llaw
Tim peldroed - penderfyniwyd peidio symud ymlaen
Maes chwarae (pris swing, trin yr offer, bark yn lle y matiau) - mae'r offer wedi cael ei drin
Mynwent Llanbeulan - cynigodd Cyng I Rowlands trefnu cyfarfod ar y safle. Hefyd bydd y clerc yn cysylltu a'r Eglwys yng Nghymru i gofyn os oes arian ar gael.

LLOFNOD (Cadeirydd) 15 Gorffennaf 2015

GOHEBIAETH CYNGOR YNYS MON
Dim

GOHEBIAETH YCHWANEGOL
Shelter Solutions (gweler uchod)
R Mills a'i Ferch - derbyniwyd pris R Mills & Daughter £140 + TAW am gosod traffic lights ar gyfer codi ysgodfan bws
Grwp Cynefin - gwybodaeth yn unig

MATERION ARIANNOL
Macventure Play £186.00 - penderfyniwyd talu Macventure Play am trin yr offer yn y maes chwarae
Derbyniwyd adroddiad yr archwiliwr mewnol.

MATERION ERAILL
Dyddiad y cyfarfod nesaf - Bydd y cyfarfod nesaf ar y 15 Gorffennaf oherwydd bydd y Clerc ar ei wyliau
Gofynwyd i'r clerc anfon llythyr o ddiolch i Hywel Owens am planu planhigion yn y potiau yn y pentref

LLOFNOD (Cadeirydd) 15 Gorffennaf 2015